# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## Y CYNLLUN PARTNERIAETH LLYWODRAETH LEOL - ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y CYNLLUN

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad ar weithrediad y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol (y Cynllun).

### Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r adroddiad ar weithrediad y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001. Ceir manylion y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn a chydymffurfiaeth â darpariaethau'r Cynllun.

### Amseru

3. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn yn nes ymlaen.

### Cefndir

4. Mae gofyn i'r Cynulliad o dan Adran 113(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, lunio Cynllun 'yn nodi sut mae'r Cynulliad, wrth arfer ei swyddogaethau, yn bwriadu cynnal a hybu llywodraeth leol yng Nghymru". Hefyd, mae gofyn i'r Cynulliad baratoi adroddiad ar ôl pob blwyddyn ariannol ar sut y cafodd ei gynigion yn y Cynllun eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

5. Rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth cyn y caiff ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a chan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

6. Cytunwyd ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2000. Dyma'r adroddiad cyntaf ar weithrediad y Cynllun. Mae'n rhoi darlun o'r bartneriaeth sy'n datblygu rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Leol, er bod agweddau y mae angen i'r ddau eu gwella er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael weithredu'n briodol.

### Y Cyngor Partneriaeth

7. Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth ar 9 Gorffennaf 2001. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y cyfarfod hwnnw bod angen gweithio er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Leol a'r Cynulliad ond bod cynnydd mawr wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. Roedd pryder ynghylch rhannu cyhoeddiadau cyhoeddus. Cytunodd Mrs Hart y byddai'r swyddogion yn llunio protocol ar gyfer hyn.

**Cydymffurfiaeth**

8. Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â'r rhwymedigaeth o dan Ran II o Atodlen 11, Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol.

**Camau i'w Cymryd**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

**Cyswllt**

10. Mary Fraser, Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 1, Est 6414